

Polisi Gwisg Ysgol

Ysgol Llanbedrog



Dyddiad Cymeradwyo: Tymor yr Haf 2021

Dyddiad Adolygu:

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: Alaw Ceris

Dyddiad: 25/5/21

Cyflwyniad

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at cydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, cysylltwch gyda'r ysgol cyn prynu gwisg.

Y Wisg Ysgol

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin. Mae'r wisg fel a ganlyn:

- trowsus / sgert / trowsus cwta ddu neu lwyd
- esgidiau addas
- crys polo wyn neu goch
- crys chwys, siwmpwr neu gardigan goch
- ffrog haf goch a gwyn

Addysg Gorfforol - Dillad ac esgidiau chwaraeon addas

Enwau ar ddillad / dillad coll

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

Esgidiau

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau sydd yn edrych yn daclus ar gyfer mynychu'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas i chwarae yn ddiogel tu allan ar iard neu gae yr ysgol. Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel (high heels).

Gwalltiau ac addurniadau

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o'r wisg ysgol. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Dim ond 'studs' sydd yn cael eu caniatáu o ran clustlysau. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.